# COFNODION CYFARFOD O FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU A GYNHALIWYD YN SIAMBR HYWEL DDA, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON AR DDYDD GWENER, 29 MEHEFIN, 2018

**YN BRESENNOL**

Cyngor Gwynedd – Einir Young (Cadeirydd) a Margaret E.Jones (Is-gadeirydd),
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Michael Pugh (Cadeirydd)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Ian Kyffin (Aelod Annibynnol)
Cyngor Sir y Fflint – Phillipa Earlam (Aelod Annibynnol)
Cyngor Sir Ddinbych – Ian Trigger (Cadeirydd) a Julia Hughes (Is-gadeirydd)
Cyngor Sir Ynys Môn – Mike Wilson (Cadeirydd) ac Islwyn Jones (Is-gadeirydd)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Sharon Warnes (Cadeirydd)

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyngor Gwynedd – Iwan Evans (Swyddog Monitro), Carwyn Meredydd (Swyddog Cyfathrebu – Y Wasg / Hyrwyddo Gwasanaethau) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau)
Cyngor Sir Ceredigion – Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Cyngor Sir Ynys Môn – Mared Yaxley (Cyfreithiwr)

## 1. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Penodwyd Einir Young, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd yn gadeirydd y cyfarfod.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

Cyngor Sir Ceredigion - Hywel Jones (Cadeirydd) a Caroline White (Is-gadeirydd)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Neil Benson (Is-gadeirydd) a Sioned Davies (Swyddog Monitro)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Iwan Jones (Swyddog Monitro)

## 3. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 TACHWEDD, 2017

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2017.

**PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2017 fel cofnod cywir.**

Mater yn codi o'r cofnodion
Eitem 6 – Gweithdrefnau i fynd i'r afael â honiadau yn erbyn aelodau

Gan gyfeirio at y penderfyniad i ofyn i Swyddog Monitro Môn ddrafftio llythyr i'r Ombwdsmon i'w gylchredeg ymysg Swyddogion Monitro pob awdurdod, nododd, Cyfreithiwr Môn ei bod ar ddeall bod llythyr wedi'i ddrafftio a'i anfon at Gyngor Bwrdeistref

Sirol Wrecsam, ond cyn i unrhyw beth pellach na hynny ddigwydd, bod yr Ombwdsmon wedi drafftio canllaw oedd yn ateb llawer o'r cwestiynau a godwyd yn y fforwm.

Cytunwyd i drefnu copïau o'r canllaw ar gyfer yr aelodau oedd yn bresennol ac i drafod y mater ymhellach o dan eitem 6 - Unrhyw Fater Arall.

## 4. ARFERION / PROTOCOLAU AR Y DEFNYDD O GYFRYNGAU CYMDEITHASOL A'R ADOLYGIAD O ARWEINIAD CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU

Eglurodd Swyddog Monitro Gwynedd y cefndir i'r eitem hon gan nodi:-

- Bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru newydd ryddhau drafft cyn-ymgynghori o ganllawiau newydd i aelodau ar gyfryngau cymdeithasol.
- Bod yr hyfforddiant ar gyfryngau cymdeithasol a drefnir ar gyfer aelodau Cyngor Gwynedd yn ymdrin â natur y cyfryngau hynny, yn ogystal â'r agwedd ymddygiad.
- Mai amcan cyflwyno'r eitem hon oedd sbarduno trafodaeth ynglŷn â sut mae gwleidyddion yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a sut mae'n newid eu byd o ran cyfathrebu, ac ati, a'r risgiau sy'n deillio o hynny.

Derbyniwyd cyflwyniad cyffredinol i'r maes cyfryngau cymdeithasol gan Swyddog Cyfathrebu – Y Wasg / Hyrwyddo Gwasanaethau Cyngor Gwynedd. Manylodd hefyd ar y math o hyfforddiant a'r cyngor a ddarperir i aelodau'r Cyngor. Nododd fod y cyfryngau cymdeithasol yn ffordd hwylus a phwerus o hyrwyddo gwasanaethau, cynnal sgwrs ddwy ffordd a sicrhau bod cynghorwyr yn atebol ac yn agored, ond 'roedd yna risgiau hefyd i'r cynghorwyr eu hystyried wrth sefydlu cyfrifon a chyhoeddi gwybodaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei gyflwyniad cynhwysfawr ar bwnc mor amserol.

Yna trafodwyd yr arferion / protocolau ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu gweithredu gan y gwahanol awdurdodau.

Nododd Swyddog Monitro Gwynedd:-

- Y cynghorir aelodau Cyngor Gwynedd i wahaniaethu rhwng eu bywyd preifat a'u bywyd cyhoeddus ar lein drwy sefydlu cyfrif personol a chyfrif aelod ar wahân oherwydd y gall cyfuno'r ddau arwain at risgiau gan fod y cod yn berthnasol i aelodau pan yn gweithredu fel cynghorydd neu'n arddel eu hunain fel aelod.
- Er bod Erthygl 10, sy'n cyfeirio at yr hawl i wneud datganiadau gwleidyddol yn ddidramgwydd, yn golygu bod modd bellach gwneud sylwadau eithaf hallt a beirniadol heb dramgwyddo'r cod, bod llawer o'r trafodaethau ar y cyfryngau cymdeithasol yn gallu ysgogi cwynion o hyd.
- Gan fod ymwneud gwahanol bobl â'r cyfryngau cymdeithasol yn amrywio, ei bod yn anodd rheoli disgwyliadau a bod hyn yn codi cwestiynau gwirioneddol anodd o ran sut a phryd y dylid ymyrryd a beth sy'n dwyn anfri ar swydd cynghorydd. Yn y cyd-destun hwn, dosbarthwyd a gofynnwyd am farn yr aelodau ar esiampl o gŵyn yn ymwneud â Facebook.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:-

- Bod angen i'r sawl sy'n llunio neges ystyried, nid beth mae ef / hi yn feddwl o'r neges, ond sut y gall gael ei ddehongli gan rywun arall.
- Bod y ffin yn denau iawn a bod y ffordd mae neges yn cael ei derbyn gan bobl yn dibynnu ar y gynulleidfa.

Gwahoddwyd cyfraniadau i'r adolygiad o arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Tynnwyd sylw gan Swyddog Monitro Gwynedd at rai materion allai fod o ddiddordeb i'r aelodau yn y ddogfen, sef:-

- Tudalen 19 – y cysyniad o 'ffrind' ar Facebook. Mae'n bosib' cael cannoedd o 'ffrindiau' ar Facebook, ond mae'r awgrym bod yna gysylltiad personol agos rhwng person ar Facebook a'i ddilynwyr yn eithafol ac yn debygol o greu llawer o broblemau o safbwynt dehongliad.
- Tudalen 21 – y cyfeiriad at y gwahaniaeth rhwng rôl fel aelod ac unigolyn preifat. Gall aelod ddwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd mewn unrhyw gapasiti, ond mae gwahaniaethu cyfrifon yn ffordd o sicrhau cystal rheolaeth dros y berthynas ag sy'n bosib'.
- Tudalen 22 – penderfynu ymlaen llaw. Mater yn codi o Bwyllgorau Cynllunio lle e.e. mae aelod o'r pwyllgor yn cefnogi ymgyrch i wrthod caniatâd cynllunio ac yn gorfod camu'n ôl o'r pwyllgor ac mewn perygl o dorri'r cod.

Nododd y byddai yna gyfle i Bwyllgorau Safonau'r holl awdurdodau drafod y canllawiau newydd ar adeg yr ymgynghoriad llawn.

Holwyd ynglŷn â pherthnasedd y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i aelodau etholedig a'u hawliau o safbwynt gosod lluniau pobl ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol preifat a chyhoeddus. Eglurodd Swyddog Monitro Gwynedd, ac eithrio Aelodau Cabinet, wrth weithredu rôl ffurfiol y Weithrediaeth, bod cynghorwyr, fel deilyddion swyddi, yn gyfrifol am eu data eu hunain fel aelodau etholedig. O ran cyhoeddi lluniau o bobl, mae'n debyg na fyddai'r ddeddf yn berthnasol i lun y gallai unrhyw un gael gafael arno, ond byddai'n rhaid i aelod gymryd mwy o bwyll os yw'n defnyddio llun na fyddai wedi cael mynediad iddo oni bai am ei swyddogaeth fel cynghorydd. Nododd hefyd, petai'r achos yn un digon difrifol, e.e. o safbwynt priodoldeb, neu rywbeth sy'n awgrymu bod yr aelod yn dwyn anfri ar ei swydd, y gallai aelod dorri'r cod drwy gam-ddefnyddio llun ar y we. Fodd bynnag, petai aelod yn gyson yn cael ei gyhuddo o dorri rheolau diogelu data, byddai'r ymddygiad, yn hytrach na'r toriad ei hun, yn arwain at ddwyn anfri.

Ychwanegodd Swyddog Cyfathrebu – Y Wasg / Hyrwyddo Gwasanaethau Gwynedd fod angen bod yn ofalus hefyd o ran y cyfnod amser mae llun yn cael ei ddefnyddio a bod y Cyngor yn gwaredu lluniau ar ôl 5 mlynedd gan na all fynnu bod ganddo'r hawl i'w defnyddio y tu hwnt i hynny.

Nodwyd y gallai sefyllfa lle mae cynghorydd yn tynnu llun mewn lleoliad lle mae plant yn digwydd bod yn bresennol fod yn heriol gan na fyddai wedi bod yn ymarferol i'r aelod fynd o gwmpas pawb i ofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r llun. Awgrymwyd o bosib' y byddai'n well i'r cynghorydd beidio tynnu'r llun yn y lle cyntaf.

Nodwyd y byddai yna lawer o drafod ar y maes yma dros y misoedd nesaf a chytunwyd y gallai hyn fod yn bwnc i'r fforwm edrych arno yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD gofyn i Bwyllgorau Safonau'r gwahanol awdurdodau drafod y drafft cyn-ymgynghoriad a'r ymgynghoriad llawn ar y canllawiau newydd ar gyfryngau cymdeithasol ac ymateb yn uniongyrchol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.**

## 5. CWESTIYNAU A GODWYD GAN GADEIRYDD PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR YNYS MÔN

Trafodwyd y cwestiynau canlynol a godwyd gan Gadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

(a) Yn wyneb bwriad Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol uno, sut mae'r Fforwm yn rhagweld y bydd y Pwyllgorau Safonau yn gweithio yn y dyfodol, yn arbennig mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned? Er enghraifft, petai Ynys Môn a Gwynedd yn uno, fel sy'n cael ei gynnig, byddai yna dros 100 o Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer un Pwyllgor Safonau – oes angen lleihau'r nifer o Gynghorau Cymuned a Thref?

Cyfeiriodd Swyddog Monitro Gwynedd at yr adolygiad o'r cynghorau cymuned a thref sy'n digwydd ar y funud gan nodi:-

- Bod cwestiwn yn codi ynglŷn â'r angen i gynghorau cymuned a thref gael cod ymddygiad mor gyflawn a manwl â chynghorau sir, o ystyried mater y risgiau a maint y penderfyniadau a wneir ganddynt.
- Bod y ganran uchaf o ymholiadau a phroblemau ynglŷn ag ymddygiad aelodau yn codi o gynghorau cymuned a thref.

Nododd Cadeirydd Pwyllgor Safonau Môn:-

- Na ddylai unrhyw gydweithio rhwng cynghorau yn y dyfodol arwain at lai o Bwyllgorau Safonau, o ystyried nifer y cynghorau cymuned a thref yn eu hardaloedd.
- Bod nifer cynyddol o fân gwynion yn dod o'r cynghorau tref yn arbennig, sy'n disgyn islaw trothwy'r Ombwdsmon mewn perthynas â budd cyhoeddus ac felly'n gorfod cael eu datrys yn lleol.

Gofynnwyd oedd profiadau Môn yn cael eu hadlewyrchu yn y cynghorau eraill. Mewn ymateb, nodwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Y derbyniodd Cyngor Dinbych lai o gwynion ar bob lefel dros yr 8 mlynedd ddiwethaf a bod nifer o resymau am hynny, gan gynnwys yr hyfforddiant effeithiol iawn sy'n cael ei drefnu ar gyfer aelodau a chlercod a'r ffaith bod pobl yn cychwyn sylweddoli bellach nad oes gan yr Ombwdsmon adnoddau di-ben-draw i ymchwilio i gwynion.
- Bod y drefn datrys lleol wedi gwneud gwahaniaeth ac wedi dod â nifer yr achosion i lawr yn sylweddol ar draws Cymru.
- Gan nad yw'r hyfforddiant yn orfodol, y bobl hynny sydd ddim ei angen sy'n fwyaf tebygol o fynychu'r sesiynau.

Nododd Swyddog Monitro Gwynedd ymhellach:-

- Bod angen codi ymwybyddiaeth ar draws yr holl gynghorau cymuned a thref ynglŷn â'r gyfundrefn a bodolaeth a swyddogaeth y Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro.
- Bod cyfeiriad yr Ombwdsmon a'r prawf budd cyhoeddus yn awgrymu y gellid tynnu'r rhannau amherthnasol allan o'r cod heb golli fawr ddim o safbwynt priodoldeb a thrwy hynny ganiatáu i'r cynghorau cymuned a thref ganolbwyntio ar y rhannau perthnasol ohono.

(b) 'Roedd y broses ddiweddar o ddewis cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned i eistedd ar Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn yn ymddangos yn un hir a beichus. Sut mae Pwyllgorau Safonau eraill yn cynnal y broses hon?

Rhoddodd Cyfreithiwr Môn, amlinelliad o'r broses a ddilynwyd ym Môn, a manylodd cynrychiolwyr y gwahanol awdurdodau ar eu prosesau hwythau o benodi cynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned ac aelodau annibynnol ar eu Pwyllgorau Safonau.

Awgrymwyd y gallai awdurdodau sy'n chwilio am aelod annibynnol newydd holi awdurdodau cyfagos ydynt hwythau angen aelod newydd hefyd fel y gallai'r person eistedd ar Bwyllgor Safonau'r ddau awdurdod.

Diolchwyd i bawb am rannu eu profiadau.

(c) Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu Protocol Datrys Lleol diwygiedig yn ddiweddar sy'n seiliedig ar broses wirfoddol o gyflafareddu rhwng y Cynghorwyr ac aelodau'r Pwyllgor Safonau. Os yw'r ddwy ochr yn cytuno i'r broses, rhaid i'r Cynghorwyr ddod o hyd i'w datrysiadau eu hunain a bydd cynrychiolydd y Pwyllgor Safonau yn bresennol fel canolwr yn unig. Er mwyn cynnal y drefn yn effeithiol, mae trefniadau mewn llaw i aelodau'r Pwyllgorau Safonau dderbyn hyfforddiant cyflafareddu. Ydi'r Pwyllgorau Safonau eraill wedi trefnu hyfforddiant o'r fath? Oes yna arferion da / pwyntiau dysgu i'w rhannu ymysg aelodau'r Fforwm?

Manylodd cynrychiolwyr y gwahanol awdurdodau ar eu trefniadau a'u profiadau. Daeth yn amlwg bod y sefyllfa'n amrywio o awdurdod i awdurdod, gyda'r Swyddog Monitro yn unig yn cynnal y drefn mewn rhai cynghorau, tra bo eraill yn cynnwys aelod(au) o'r Pwyllgor Safonau a / neu Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol:-

- Pe na fyddai'r cyflafareddu'n llwyddiannus a'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau, y byddai'n rhaid i unrhyw aelod o'r Pwyllgor Safonau fu'n rhan o'r broses gyflafareddu sefyll i lawr o'r pwyllgor rhag cael ei weld yn bleidiol i un ochr.
- Mai'r Swyddog Monitro ac Arweinyddion y Grwpiau ddylai fod yn gyfrifol am y drefn gyflafareddu.
- Gall aelod o'r Pwyllgor Safonau sy'n gweithredu fel canolwr deimlo ei fod wedi cael baich annheg.
- Os bydd mater lle cynigiwyd datrysiad lleol yn cael ei gyfeirio at yr Ombwdsmon, bydd yr Ombwdsmon yn ymwybodol bod y cynnig wedi'i wneud a gall gymryd y ffaith bod y drefn wedi methu i ystyriaeth.
- Na ddylai canolwr gymryd ochr neb, eithr ceisio cael y ddwy ochr i weld ochr ei gilydd.

(ch) Byddai Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon trefnu i David Richards, Cyfarwyddwr LLC, ddod i gyfarfod o'r Fforwm hwn yn y dyfodol i roi cyflwyniad ar faterion llywodraethu cyffredinol. Ydi hyn yn rhywbeth fyddai o gymorth i aelodau'r Fforwm?

Nododd Cyfreithiwr Môn y bu Swyddog Monitro'r Awdurdod ar gwrs lle'r oedd David Richards yn cynnal sesiwn ar lywodraethu yn gyffredinol ac iddo gynnig y gallai roi cyflwyniad i'r fforwm hwn ar hynny, neu bwnc arall.

**PENDERFYNWYD gofyn i Swyddog Monitro Cyngor Sir Ynys Môn anfon copi o gyflwyniad David Richards ar lywodraethu yn gyffredinol i bob Swyddog Monitro fel y gallent ei roi i'w Pwyllgorau Safonau i'w drafod a phenderfynu oes modd ei deilwrio ar gyfer y fforwm hwn.**

## 6. UNRHYW FATER ARALL

(a) Rhaglen y Cyfarfod nesaf

Nododd Swyddog Monitro Gwynedd y byddai'n fuddiol i bwy bynnag sy'n trefnu'r fforwm nesaf gael amcan o'r math o eitemau y dymunid eu gosod ar y rhaglen.

**PENDERFYNWYD gofyn i bawb ymgynghori â'u Pwyllgorau Safonau ynglŷn ag eitemau posib' ar gyfer y cyfarfod nesaf a bwydo unrhyw awgrymiadau, drwy'r Swyddogion Monitro, i'r awdurdod lletya nesaf.**

(b) Cynhadledd Safonau 2018

Amlinellodd Swyddog Monitro Ceredigion y trefniadau ar gyfer Cynhadledd Safonau 2018 a gynhelir yn Aberystwyth ar y 14eg o Fedi. Cyflwynodd fraslun o gynnwys rhaglen y dydd gan nodi y croesawid unrhyw syniadau neu gymorth gan unrhyw un.

(c) Gweithdrefnau i fynd i'r afael â honiadau yn erbyn aelodau

Trafodwyd canllaw drafft yr Ombwdsmon 'Code of Conduct – Interim Powers'.

Nododd Swyddog Monitro Gwynedd mai'r safbwynt ar hyn yng nghyfarfod Swyddogion Monitro Cymru oedd na ddymunid gweld ymchwiliad yn gorfod disgwyl i gael dyfarniad ar atal gan y byddai hynny'n ychwanegu baich amser.

Eglurodd Is-gadeirydd Pwyllgor Safonau Môn iddynt ddod â'r mater hwn gerbron yn wreiddiol gan nad oeddent yn argyhoeddedig bod yna broses yn bodoli petai yna gyhuddiad yn erbyn cynghorydd sir. Gan hynny, penderfynodd y fforwm diwethaf y byddai Môn yn drafftio llythyr i'r Ombwdsmon i'w gylchredeg ymysg Swyddogion Monitro pob awdurdod. Anfonwyd y llythyr at Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ond cyn iddo gael ei anfon ymlaen at yr Ombwdsmon, trafodwyd mater digon tebyg mewn cyfarfod Swyddogion Monitro yn Llandrindod, lle bu i swyddog o swyddfa'r Ombwdsmon oedd yn bresennol gytuno i fynd â'r mater yn ôl at yr Ombwdsmon. Nid oedd y canllaw drafft yn ateb bob un o'r cwestiynau yn y llythyr, ond credid mai hwn oedd yr ateb gorau roedd y fforwm yn debygol o gael gan yr Ombwdsmon, yn enwedig o ystyried faint o amser oedd wedi mynd heibio ers drafftio'r llythyr.

## 7. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd gwybodaeth yn cael ei chylchredeg ynglŷn â dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00yp a daeth i ben am 11.55yb.